TASG 1 : DADANSODDI

Mae'r bardd yn ailadrodd 'cewch fy' drwy'r englyn.

Pam y tybiwch chi y mae'n gwneud hyn? Pa effaith y mae'n ceisio'i chreu?

TASG 2 : TRAFOD / DADANSODDI

Ceisiwch ddyfalu sut berson yw'r ferch ysgol yn yr englyn.

- Pam ei bod hi wedi rhoi'r hunlun hwn ar Facebook?
- Sut fywyd sydd ganddi hi, tybed?
- A ydych yn cydymdeimlo â hi? Pam?

TASG 3 : YSGRIFENNU

Dychmygwch eich bod wedi gosod llun ohonoch chi eich hun ar Facebook neu wefan gymdeithasol debyg. Mewn pedair llinell, nodwch ba negeseuon y byddech yn dymuno i'r llun hwn gyfleu i'r sawl sy'n gweld y llun ar-lein.

TASG 4 : YSGRIFENNU (SGRIPTIO)

Dychmygwch fod y ferch yn yr englyn yn gwneud dyddiadur fideo o wythnos yn ei bywyd hi ei hun. Ysgrifennwch sgript (300 o eiriau) un o'r cofnodion dyddiadur hynny, gan gofio:

- sôn am ddigwyddiadau penodol yn ystod y dydd
- sôn am ymateb y ferch i brofiadau'r dydd ac am y modd y mae'r pethau hynny yn nodweddiadol o'i bywyd.

Cofiwch ysgrifennu yn y person cyntaf, gan ddychmygu mai chi yw'r ferch.
(Byddai'n syniad da perfformio'r cofnod dyddiadur fideo hwn, a'i ffilmio, hyd yn oed.)

TASG 5 : YMCHWILIO

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Englyn yw'r enw ar y ffurf hon o gerdd.

a) Mewn grwpiau, ewch i chwilio mewn llyfrau ac ar y we am englyn arall sy'n apelio.

b) Cyflwynwch yr englyn i'r dosbarth, gan egluro pam eich bod wedi dewis yr englyn a beth yw neges y bardd.

c) Casglwch englynion y dosbarth ynghyd.